

Siarter Ymddiried



Caerphilly Homes
Cartrefi Caerffili



Siarter Ymddiried Cartrefi Caerffili

Datblygwyd y Siarter Ymddiried hon yn dilyn ymgynghoriadau â thenantiaid a staff. Mae Grŵp Tasg Cartrefi Caerffili wedi cymeradwyo'r Siarter ac mae Is-bwyllgor y Cabinet wedi'i mabwysiadu. Mae'n gosod y safonau y gall tenantiaid ddisgwyl oddi wrth y gweithlu a sut ddylai'r tenantiad trin y gweithlu.

Parch

- 1** Rhaid trin pob tenant, lesddeiliad a'u hymwelwyr â pharch. Byddwch yn bwyllog, yn gwrtais ac yn broffesiynol ar bob adeg.
- 2** Dylai tenantiaid ddangos parch tuag at grefftwyr sy'n gwneud gwaith yn eu cartref. Ni fydd disgwyl i grefftwyr weithio mewn cartrefi lle gallai'r tenant fod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.

- 3 Byddwch yn ymwybodol o anghenion, pryderon ac amgylchiadau pob preswlydd. Os oes unrhyw amheuaeth dylid ymgynghori â'r tenant, y lesddeiliad a/neu'r Swyddog Cyswllt Tenantiaid. Bydd y Swyddog Cyswllt Tenantiaid yn cysylltu â'r Swyddfa Tai Ardal neu Swyddfa Tai'r Gymdogaeth.
- 4 Rhaid cofio ar bob adeg mai cartref rhywun yw'r eiddo ac felly dylid ei drin yn briodol. **Ni chaniateir ysmegu** yn y cartref nac yn ystod oriau gwaith. Bydd disgwyl i denantiaid beidio ag ysmegu yn yr ardaloedd gwaith. Ni ddylid chwarae cerddoriaeth ar radio ac ati oni bai bod y tenant neu'r lesddeiliad yn cytuno i hynny.



Yn y Cartref

- 5 Dylid cyflawni'r gwaith gan dalu sylw dyledus i'r cartref a'r amgylchedd. Dylid ystyried eiddo cyfagos preswylwyr a'u hanifeiliaid anwes.
- 6 Rhaid parchu preifatrwydd y cartref a **pheidiwch â** mynd i mewn i unrhyw ran o'r cartref lle nad yw gwaith yn cael ei gyflawni. Dim ond cyflogedigion a gontractiwyd i wneud y gwaith ddylai fod yn y cartref.
- 7 Rhaid cymryd pob gofal rhesymol i ddiogelu eiddo tenantiaid, lesddeiliaid a'r Cyngor wrth gyflawni gwaith, gan gynnwys ffyrdd mynediad. Dylid diogelu lloriau drwy ddefnyddio llenni llwch glân neu debyg neu dylid gwisgo gorchuddion esgidiau. Dylid diogelu coed a llwyni a allai gael eu difrodi a dylid osgoi cerdded ar welyau planhigion oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Dylid unioni unrhyw ddifrod a achosir.

- 8 Peidiwch byth â defnyddio** iaith y gellid ei ystyried yn sarhaus i eraill e.e. iaith hiliol, rhywiaethol, sarhaus, anweddu neu amharchus.
- 9 Peidiwch â** mynegi barn bersonol ar ansawdd gwaith a wnaed gan eraill a pheidiwch â mynegi barn ar bolisiau a gweithdrefnau'r cyngor.
- 10 Peidiwch â** defnyddio eiddo'r tenantiaid neu lesddeiliaid (e.e. cadeiriau, byrddau, ysgolion ac ati).
- 11 Peidiwch â** defnyddio cegin neu ystafell ymolchi'r tenantiaid neu lesddeiliaid i lanhau offer neu gyfarpar neu i waredu â deunyddiau diangen.
- 12 Peidiwch â** defnyddio toiled neu ystafell ymolchi'r tenantiaid neu lesddeiliaid heb eu caniatâd.
- 13 Peidiwch â** defnyddio unrhyw ystafell yn yr eiddo ar gyfer egwyl paned neu brydau bwyd. Dylid treulio amser egwyl y tu allan i'r cartref yn y cyfleusterau lles dynodedig.
- 14 Peidiwch â** defnyddio cyflenwad trydan y tenantiaid neu'r lesddeiliaid heb eu caniatâd, a dylech eu had-dalu ag arian parod safonol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

15 Peidiwch â defnyddio ffôn y tenantiaid neu'r llesddeiliaid oni bai bod y galwad yn gwbl angenrheidiol, yn ymwneud â'r gwaith a'ch bod wedi cael caniatâd ganddynt ymlaen llaw. Dim ond at ddibenion busnes neu mewn argyfwng y dylid defnyddio ffonau symudol yn y cartref.

Cael Mynediad

16 Wrth gyrraedd eiddo, hyd yn oed os ydynt yn eich disgwyl, dylech bob amser egluro wrth y tenant neu'r lesddeiliad pam rydych yn ymweld â nhw. Eglurwch wrth y tenant neu'r lesddeiliad pa waith sydd angen ei wneud, lle y byddwch yn gweithio â pha mor hir mae'r gwaith yn debygol o bara. Dylech ymddiheuro os ydych yn hwyr, ac os yw'n bosibl dylech ffonio ymlaen llaw i roi gwybod pryd y dylid disgwyl i chi gyrraedd.

17 Os oes angen i chi gael mynediad i eiddo ac nad ydych yn gallu aros i drefnu apwyntiad, gofynnwch wrth y tenant neu'r lesddeiliad p'un a yw'n gyfleus i chi gael mynediad.



Diogelwch

- 18 Rhaid i chi gario eich cerdyn adnabod** a dylech gymryd yr amser i gyflwyno eich hun a'ch cydweithwyr gyda'ch enwau. Dylai crefftwyr wisgo lifrai priodol neu ddillad gwaith addas.
- 19 Ni ddylai** tenantiaid adael plant heb eu goruchwyllo tra bod gwaith yn cael ei wneud yn eu cartref. **Peidiwch â** mynd i mewn i eiddo, na pharhau i weithio mewn eiddo lle mae plant dan 16 oed yn bresennol, oni bai bod y plant yn cael eu goruchwyllo'n uniongyrchol gan oedolyn ar bob adeg.

- 20 Peidiwch â** chaniatáu i unrhyw berson dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau weithio ar y contract. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithredu polisi goddef dim yn ymwneud ag alcohol neu gyffuriau yn y gweithle.
- 21 Peidiwch ag** amlygu eich hun i risg. Os oes rhaid i chi adael darn o waith gan fod gennych bryderon ynghylch eich diogelwch eich hun, cysylltwch â'r Swyddog Cyswllt Tenantiaid ar unwaith. Bydd y Swyddog Cyswllt Tenantiaid yn cysylltu â'r Swyddfa Tai Ardal neu Swyddfa Tai'r Gymdogaeth.

Gwybodaeth

- 22** Sicrhewch bod gan y tenant neu lesddeiliad rifau cyswllt y contractydd a Swyddog Cyswllt Tenantiaid y cyngor gan gynnwys manylion cyswllt allan o oriau argyfwng.